

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	12 Fawrth, 2024
Pwnc:	Dangosyddion Perfformiad Lleol: Gwasanaethau Tai
Pwrpas yr Adroddiad:	Diweddarau'r Pwyllgor ar gynnydd gyda'r adolygiad gan y Gwasanaeth Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (dyddiau a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau Anabledd)
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng Douglas Fowlie
Aelod(au) Portfolio:	Cyng Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Gwasanaethau Plant, Ieuencid a Thai
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Awdur yr Adroddiad:	Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Rhif Ffôn:	01248 752289
E-bost:	NedMichael@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

Adolygiad Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28

A1 nodi'r cynnydd hyd yma gydag adolygiad y Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd)

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Tai yn un o 6 prif amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor → “Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref”.

Cynllun y Cyngor: 2023-2028 yw ein prif ddogfen strategol.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
- 3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - Hirdymor
 - Atal
 - Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Beth ydy'r amserlen wrth gwblhau adolygiad y Gwasanaeth Tai o berfformiad Dangosydd Perfformiad 28 (dyddiau a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau Anabledd) a pha elfennau o'r gwaith sy'n weddill?
2. I ba raddau y mae angen datrysiad corfforaethol i berfformiad yn erbyn Dangosydd Perfformiad 28?

5 – Cefndir / Cyd-destun

1. Cefndir

1.1 Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod 21 o Dachwedd 2023 roi ystyriaeth i berfformiad y Cyngor ar ddiwedd Ch2: 2023/24 gan edrych yn benodol ar y Dangosyddion Perfformiad canlynol a oedd yn tan berfformio yn y Gwasanaethau Tai:

- **Dangosydd Perfformiad 28** – nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

1.2 Yn sgil ei ystyriaeth, gwelwyd y Pwyllgor hwn yn penderfynu ar y camau gweithredu canlynol:

- **Dangosydd Perfformiad 28** – bod Grŵp swyddogion yn cwblhau prosiect tasg a gorffen i ddadansoddi y tan berfformiad ar gyfer y dangosydd yma ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2024 gyda chynigion ar gyfer gwella.

2. Adolygiad Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28

Isod, mae diweddariad ar gynnydd hyd yma ar yr adolygiad gan y Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd):

2.1 Mae'r Gwasanaeth Tai yn y broses o adolygu'r Polisi Grant Cyfleusterau Anabledd bydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

2.2 Mae cytundeb lefel gwasanaeth yn cael eu lunio bydd yn cael ei gytuno gyda'r yr Asiantaeth berthnasol bydd yn gosod cyfrifoldeb y cwmni o ran gweithredu fel Asiant ar gyfer gwaith addasiadau drwy'r gyfundrefn Grant Cyfleusterau Anabledd ynghyd a lefelau perfformiad disgwylidig.

- 2.3 Contractwyr ychwanegol wedi eu hadnabod er mwyn gwneud gwaith addasiadau.
- 2.4 Er bod y tri pwynt uchod ar waith disgwylw'n na byddwn yn gweld effeithiau hyn ar y dangosydd perfformiad hyd nes diwedd 2024/25.
- 2.5 Trafodwyd hefyd gyda'r Deilydd Portffolio Tai am gael dau ddangosydd perfformiad yn y maes hwn, sef yr un presennol ac un ychwanegol sydd ddim yn cynnwys addasiadau cymhleth.

3. Materion ar gyfer eu hystyried

Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini:

- 3.1 Nodi'r cynnydd wnaed gan swyddogion wrth adolygu perfformiad Dangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau Anabledd)

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Dim yn berthnasol yn achos y mater hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol o'r broses o ddiwygio unrhyw bolisiau neu drefniadau gwaith.

7 – Goblygiadau Ariannol

Amherthnasol

8 – Atodiadau

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):